

Paratoi ar gyfer Cyfarfod Achwyniad – Canllaw i Reolwyr

Rhan o Ganllaw ACAS – Disgyblaeth ac Achwyniadau yn y Gwaith

Beth yw cyfarfod achwyniad?

Yn gyffredinol mae cyfarfod achwyniad yn ymdrin ag unrhyw achwyniad a godir gan weithiwr.

Paratoi ar gyfer y cyfarfod

Dylai rheolwyr:

- drefnu cyfarfod yn brydlon, yn breifat lle na fydd dim yn torri ar ei draws
- ystyried trefnu i rywun nad yw'n ymwneud â'r achos gymryd cofnodion o'r cyfarfod a bod yn dyst i'r hyn a ddywedwyd
- edrych a oes achwyniadau tebyg wedi cael eu codi o'r blaen, sut maent wedi cael eu datrys, ac unrhyw gamau dilynol sydd wedi bod yn angenrheidiol. Mae hyn yn sicrhau cysondeb triniaeth
- ystyried trefnu cyfieithydd ar y pryd os yw'r gweithiwr yn cael anhawster siarad Saesneg
- ystyried a oes angen unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer unigolyn sy'n anabl a/neu gydymaith
- ystyried a ddylid cynnig cyfryngu annibynnol.

Sut cynhelir y cyfarfod

Dylai rheolwyr:

- gofio nad yw gwrandawriad achwyniad yr un peth â gwrandawriad disgyblu, a'i fod yn achlysur pryd y gall trafodaeth a deialog arwain at ateb cyfeillgar o bosibl
- cyflwyno pobl fel bo angen
- gwahodd y gweithiwr i ailddatgan ei achwyniad a sut yr hoffai iddo gael ei ddatrys
- bod yn bwylllog wrth ddatrys achwyniadau. Nid materion sy'n galw am benderfyniadau difyfyf ydynt fel arfer, ac mae'n bosibl bod y gweithiwr yn credu bod ganddo le i achwyn ers amser hir. Dylid goddef rhywfaint o 'ollwng stêm' rhesymol os yw'r gweithiwr dan straen
- ystyried gohirio'r cyfarfod os oes angen ymchwilio i unrhyw ffeithiau newydd sy'n codi
- crynhoi'r prif bwyntiau
- dweud wrth y gweithiwr pryd y byddai'n rhesymol iddo/iddi ddisgwyl ymateb os na ellir rhoi un ar y pryd, gan gofio'r terfynau amser a nodir yng ngweithdrefn y sefydliad.

Bod yn ddigyffro ac yn deg a dilyn y weithdrefn

Weithiau gellir gweld achwyniadau fel beirniadaeth bersonol – dylai rheolwyr ofalu eu bod yn clywed unrhyw achwyniad mewn ffordd ddigyffro a gwrthrychol, gan fod mor deg ag sy'n bosibl â'r gweithiwr wrth ddatrys y problem.

Gall dilyn y weithdrefn achwyniadau wneud hyn yn haws.

Achwyniadau ynghylch cydweithwyr

Gellir gwneud y rhain yn haws trwy ddilyn y weithdrefn achwyniadau.

Gall gweithiwr fod yn achosi achwyniadau ymysg ei gydweithwyr – efallai ar sail hylendid personol, agwedd neu allu i wneud y gwaith.

Mae'n rhaid i gyflogwyr ymdrin â'r achosion hyn yn ofalus ac fel arfer dylent ddechrau trwy siarad yn breifat gyda'r unigolyn am bryderon ei gydweithwyr. Mae'n bosibl y bydd hyn yn datrys yr achwyniad.

Neu, os yw'r rheiny sy'n ymwneud â'r mater yn fodlon, mae'n bosibl y bydd cyfryngwr annibynnol yn gallu helpu. Mae angen gofalu nad yw unrhyw drafodaeth gyda rhywun y mae cwyno amdano yn troi'n gyfarfod achwyniad ffurfiol.

Ymdrin ag achosion arbennig

Ymdrinnir ag achosion o ddatgelu camarfer o dan Bolisi a Gweithdrefnau'r Awdurdod ar Ddatgelu Camarfer.

Ymdrinnir â'r un achwyniad a godir gan un neu fwy o weithwyr o'r un adran o dan Bolisi'r Awdurdod ar Anghydfodau Torfol.

Ymdrinnir â chwynion ynghylch bwlio neu aflonyddu'n unol â pholisi'r Awdurdod ar Urddas yn y Gwaith.

Mae'n amlwg bod cyfrinachedd o'r pwys mwyaf wrth ymdrin ag unrhyw achwyniad o'r fath, er y gall fod angen i'r canlyniad ddod yn hysbys os canfyddir, er enghraifft, fod rhywun wedi bwlio neu aflonyddu ar unigolyn ac mai camau disgyblu yw'r canlyniad.

Mae'n bosibl y bydd cyfryngu'n arbennig o ddefnyddiol mewn achosion o'r mathau hyn.